# Pa mor effeithiol mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu

## Trosolwg

Mae angen i Heddlu Gwent wella'r ffordd y mae'n cadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Nid yw mor effeithiol ag yr oedd yn 2016 yn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed (pobl sy'n agored i niwed oherwydd eu hoedran, anabledd, neu oherwydd y buont yn destun troseddau ailadroddus, neu mewn perygl mawr o gael eu cam-drin, er enghraifft). Mae hwn yn faes pwysig tu hwnt.

Mae gan yr heddlu ymwybyddiaeth dda o bobl sy'n agored i niwed ar draws ardal yr heddlu ac mae wedi gwella'r ffordd y mae'n nodi'r bobl hyn pan fônt yn cysylltu â'r heddlu gyntaf. Mae proses asesu risg strwythuredig ar waith i sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn cael yr ymateb mwyaf priodol. Mae'r heddlu'n gwneud cynnydd da o ran ei ddull tuag at bobl agored i niwed sydd â chyflyrau iechyd meddwl.

Fodd bynnag, mae angen i Heddlu Gwent wella'r ffordd y mae'n ymateb i ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae swyddogion yn dda yn sicrhau y gweithredir mesurau diogelu ar unwaith ar gyfer dioddefwyr ac aelodau o'u haelwyd, ond mae'r heddlu yn arestio llai ac yn defnyddio llai o bwerau cyfreithiol eraill i amddiffyn a pharhau i ddiogelu dioddefwyr. Mae'r heddlu'n atgyfeirio llai o achosion cam-drin domestig at gynadleddau asesu risg aml-asiantaeth na bron unrhyw heddlu arall yng Nghymru a Lloegr. Hefyd, nid yw swyddogion yn gwisgo camerâu fideo ar eu cyrff yn gyson i gofnodi tystiolaeth mewn digwyddiadau cam-drin domestig.

Mae Heddlu Gwent wedi gwella'r ffordd y mae'n mynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae'r heddlu wedi datblygu ei ddealltwriaeth o'r bygythiadau a achosir. Mae'n mapio grwpiau troseddau cyfundrefnol yn gyflym ac yn tarfu ar eu gweithgarwch. Fodd bynnag, dim ond dealltwriaeth gyfyngedig sydd gan swyddogion rheng flaen o rwydweithiau delio cyffuriau yn lledaenu o ardaloedd cyfagos i Went.

Mae gan yr heddlu berthynas waith dda â'r uned troseddau cyfundrefnol rhanbarthol ond mae angen gwella'r ffordd y mae'n cyfnewid gwybodaeth ag asiantaethau partner (megis awdurdodau lleol, neu wasanaethau iechyd ac addysg) fel y gall ddeall bygythiadau'n well. Mae hefyd angen gwella sut mae'n atal troseddau difrifol a chyfundrefnol. Nid oes gan yr heddlu unrhyw fentrau penodol i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r risgiau a achosir gan droseddau cyfundrefnol.

Mae gan Heddlu Gwent y trefniadau angenrheidiol ar waith i gyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol, ac i ymateb i ymosodiad sy'n gofyn am ymateb arfog.